| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | BWRDD Y CYNGOR |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 14 CHWEFROR 2012 |
| **TEITL** | STRATEGAETH ARIANNOL 2012/13 – 2014/15 |
| **PWRPAS** | Sefydlu'r strategateh ariannol am y cyfnod dan sylw ac argymell cynnydd yn y dreth gyngor i'r Cyngor |
| **ARGYMHELLIAD** | I dderbyn y gyllideb a nodir ac argymell cynnydd yn y Dreth Gyngor i'r Cyngor |
| **AWDUR** | Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cynghorydd Sian Gwenllian |

## 1 CEFNDIR

1.1 Yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr, yn dilyn argymhellion a wnaed gan y Prif Bwyllgor Craffu, bu'r Bwrdd yn ystyried y sefyllfa gyllidol debygol ar gyfer y cyfnod 2012/13 – 2014/15.

1.2 Atgoffaf aelodau o'r hafaliad sylfaenol sy'n rhaid ei wireddu bob blwyddyn sef –

Gwariant = Grant y Cynulliad + Treth Gyngor

1.3 O ran yr ochr gwariant, nodwyd ym mis Rhagfyr y byddai ein hanghenion gwario yn cynyddu £8.4m yn 2012/13 er mwyn cwrdd â chynnydd anorfod yn ein costau a blaenoriaethau y byddai angen eu hariannu ac y byddai Grant Llywodraeth Cymru yn gostwng £0.1m - fyddai'n golygu na fyddai'r hafaliad yn sefyll oni bai i ni leihau gwariant neu gynyddu'r Dreth Gyngor i ddarganfod yr £8.5m.

1.4 'Roedd yna gytundeb yn y Bwrdd ynglŷn â chyfeiriad cyffredinol y strategaeth a sut yr oeddem am ymdrin â'r risgiau yr oeddem wedi eu hadnabod.

1.5 Y farn o ran y Dreth Gyngor bryd hynny oedd y dylid cadw'n gyffredinol at bolisi hir dymor y Cyngor gan gynyddu'r Dreth Gyngor rhwng 3.5% a 3.9% yn 2012/13 o gofio'r anghenion gwariant ar wasanaethau, y polisi hanesyddol , yr hinsawdd debygol o ran codiadau treth gyngor y cynghorau eraill a'r sefyllfa economaidd.

1.6 Gellir gweld copi llawn o'r adroddiad blaenorol ar safle we'r Cyngor yn :

http://www.gwynedd.gov.uk/ADNPwyllgorau/2011/Pwyllgorau%20Craffu/Prif%20Bwyllgor%20Craffu/2011-12-08/cymraeg/08_01_Strategaeth%20Ariannol%202012-13%20-%202014-15.pdf

1.7 Mae'r adroddiad yma yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa a nodir uchod. Yn gyffredinol ni fu newid o unrhyw sylwedd yn y sefyllfa ers i mi adrodd yn Rhagfyr ond fe nodir yn yr adroddiad fanylion y newidiadau ers yr adeg hynny.

1.8 Yn gryno, mae'r adroddiad yn nodi y bydd anghenion gwario'r Cyngor bellach yn cynyddu £8.3m yn 2012/13 a gyda'r Grant a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn aros yn ei unfan, golyga hynny y bydd yn rhaid i'r £8.3m yma ddod o gynnydd yn y Dreth gyngor neu arbedion yng ngwariant y Cyngor.

1.9 Dros yr hir dymor dengys y tafluniadau diweddaraf fod ein tafluniadau gwariant dros y 4 blynedd hyd at 2014/15 yn parhau i fod yn agos at ei le a bod y strategaeth ar gyfer dygymod a'r diffyg o tua £37m dros y cyfnod yn parhau i fod yn angenrheidiol. Dengys y sefyllfa ddiweddaraf ein bod yn llwyddo i wireddu'r cynlluniau i gwrdd â'r diffyg.

1.10 Fodd bynnag wrth edrych ymhellach i'r dyfodol ymddengys y byddwn yn wynebu sefyllfa anoddach o lawer yn 2015/16 a 2016/17 a dylid dechrau cynllunio ar gyfer hynny nawr.

1.11 Bydd y Prif Bwyllgor Craffu yn ystyried cynnyws yr adroddiad yma yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror a byddwn yn adrodd ar ganlyniadau'r trafodaethau hynny i'r Bwrdd.

## 2 SEFYLLFA DERFYNOL 2012/13

2.1 O ddilyn cyfeiriad cyffredinol y strategaeth a sefydlwyd yn Rhagfyr dyma bellach yw'r ffigyrau cyllidebol diweddaraf a ragwelir ar gyfer 2012/13 (nodir y gymhariaeth gyda'r hyn a adroddwyd ym mis Rhagfyr) -

**Tabl 1**
**Cyllideb derfynol 2012/13**

| £'000 | Adroddwyd yn Rhagfyr | Cyllideb Derfynol | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Sylfaenol** | **217,526** | **217,526** | - |
| Chwyddiant cyflogau | 2,114 | 2,114 | - |
| Chwyddiant arall | 3,083 | 3,101 | 18 |
| Praeseptau | - | (15) | (15) |
| Incrementau | 157 | 157 | - |
| Pensiynau | 345 | 345 | - |
| Llog ar falansau | (32) | (29) | 3 |
| Costau Benthyca | 139 | (7) | (146) |
| Demograffi – Anabledd Dysgu | 180 | 180 | - |
| Lleihad cyllidebau incwm | 260 | 334 | 74 |
| Amrywiol | 24 | (190) | (214) |
| Trosglwyddiadau i'r setliad | - | (4) | (4) |
| Cwrdd â phwysau ar wasanaethau | 1,500 | 1,714 | 214 |
| Cynllun Tair Blynedd | 700 | 700 | - |
| **Cyfanswm gofynion** | 225,996 | 225,926 | (70) |
| **Grant Cynnal Refeniw** | (167,926) | (168,067) | (141) |
| **Treth Gyngor (heb gynnydd)** | (49,561) | (49,561) | - |
| **Diffyg i'w ddarganfod drwy -** | 8,509 | 8,298 | (211) |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor | (1,982) | (1,933) | 49 |
| Arbedion y £16m | (3,727) | (3,704) | 23 |
| Arbedion effeithlonrwydd 1% | (1,500) | (1,458) | 42 |
| Newid polisi cyllidebu | (400) | (405) | (5) |
| Project Incwm Corfforaethol | (250) | (250) | - |
| Effeithlonrwydd corfforaethol | (750) | (750) | - |
| **I'w ddarganfod** | (100) | (202) | (102) |

2.2 Fe welir mai man newidiadau a gafwyd ers adrodd ym mis Rhagfyr gyda'r cynnydd yn yr angen i wario yn aros yn lled gyson ond gyda'r grant terfynol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ychydig yn uwch na'r hyn a ragwelwyd.

2.3 Rhoddir manylion o'r hyn y mae'r uchod yn ei olygu fesul gwasanaeth yn Atodiad 1.

2.4 O'r newidiadau sy'n ymddangos uchod fe amlygir y rhesymau y tu ôl i'r amrywiaethau mwyaf isod.

2.5 **Costau Benthyca** - mae'r ffigwr yma'n gostwng yn sgil sefydlu'r rhaglen gyfalaf a nodir yn rhan 5 o'r adroddiad a'r proffil gwariant sy'n ymddangos ynddo. Gan fod y proffil gwariant yn golygu llai o fenthyca yn y 3 blwyddyn i ddod nag oeddem yn rhagweld yn

wreiddiol bydd y costau benthyca £207,000 yn llai yn 2012/13 (yn hytrach na £139,000 yn fwy fel y rhagwelwyd yn wreiddiol).

Fodd bynnag, gan y bydd y Cyngor angen benthyca maes o law i ariannu ei gyllid cyfatebol i'r arian grant y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i wella ysgolion a chan fod y Bwrdd hefyd wedi penderfynu ym mis Rhagfyr y dylid sicrhau adnodd cyfalaf o £15m ar gyfer maes gofal dros y 7 blynedd nesaf , fe fydd angen darganfod y cyllid refeniw i dalu am y benthyciadau yma.

Cymeraf y cyfle felly o weld ein costau benthyca yn disgyn i wneud darpariaeth o £200,000 tuag at y costau yma.

Nodir mwy am y rhaglen gyfalaf isod yn rhan 5.

2.6 **Lleihad Cyllidebau Incwm** – yn sgil y dirwasgiad 'rydym wedi gweld effaith andwyol ar incwm y Cyngor. Yn dilyn adolygiad o bob pennawd cyllideb incwm bu'n rhaid lleihau cyllidebau incwm ymhellach.

2.7 **Amrywiol** – Ers paratoi'r gyllideb wreiddiol daeth yn amlwg y byddwn yn elwa o newidiadau yn yr yswiriant cenedlaethol a delir ar gyflogau gweithwyr. Dyna yw rhan fwyaf o'r swm yma.

2.8 **Trosglwyddiadau o'r setliad** - mae yna ddau fan newid yn deillio o drosglwyddo cyfrifoldebau, a thrwy hynny symud cyllideb allan o'r setliad (neu i mewn iddo) . Bydd cyfrifoldeb am dalu am wasanaeth yr Arolwg Ordnans yn trosglwyddo'n genedlaethol i Lywodraeth Cymru a thrwy hynny byddwn yn arbed costau o £31,000. Bydd cyfrifoldeb am rai dyletswyddau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl fodd bynnag yn disgyn ar y Cyngor fydd yn costio £27,000 yn golygu trosglwyddiad net o'r setliad o £4,000.

2.9 **Cwrdd â phwysau ar wasanaeth** - ar adeg paratoi'r adroddiad ym mis Rhagfyr £1.5m oedd y ffigwr a ragwelwyd ar gyfer y materion hyn. Erbyn hyn mae yna fidiau gwerth £1.7m angen eu hystyried (gweler adroddiad ar wahân gan y Pennaeth Strategol a Gwella).

Gellir gweld fod adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella hefyd yn argymell cymeradwyo bidiau unwaith ac am byth o £85,000 ac ar ben hyn rhaid cofio i'r Bwrdd fabwysiadu strategaeth yn ei gyfarfod ar 1 Tachwedd y llynedd i greu pecyn annog cwsmeriaid ar gyfer Hafan Pwllheli, a'i fod wedi cymeradwyo cyllid unwaith ac am byth o £100,000 at y diben hwn bryd hynny. Gyda'i gilydd felly bydd angen swm unwaith ac am byth o £185,000 ac fe ellir ariannu hwn allan o'r £310,000 arian grant cymell perfformiad a gedwir bob blwyddyn at ddibenion unwaith ac am byth.

2.10 **Y Gyllideb wrth gefn** – Tra'n atgoffa aelodau na wyddom beth yn union fydd codiadau cyflog 2012/13, 'rydym wedi gwneud

darpariaeth ar gyfer 2% yn y gyllideb gan obeithio na fydd hynny yn cael ei wireddu a chan wybod felly y bydd ar gael i ni warchod rhag gorfod darganfod toriadau yn 2013/14 efallai.

Er ein bod wedi darparu swm rhesymol ar gyfer unrhyw gynnydd yng nghostau ynni eto'r flwyddyn nesaf, mae gennyf bryderon na fydd yn ddigon. Hefyd, mae yna dendro cludiant am fod eto'r flwyddyn nesaf ac mae yna risg y byddwn yn gweld prisiau uwch eto bryd hynny ond ni wyddom hynny hyd nes y byddwn wedi tendro.

Erys £600,000 yn y gyllideb wrth gefn, ddylai fod yn ddigonol i warchod rhag y problemau yma.

2.11 **Grant Llywodraeth Cymru -** Erbyn hyn fe welir ein bod wedi cael gwybod y bydd y grant a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn cynyddu o'r £168.026 a gafwyd yn 2011/12 i £168.067m (yn hytrach na'r £167.926m a dybiwyd cyn y Nadolig). Mae'r ffigwr yma yn cynnwys y symiau a gafwyd ar gyfer trosglwyddo gwasanaethau (gw. cymal 2.8 uchod), ac o gymharu tebyg at ei debyg mae'n cynrychioli cynnydd o 0.02% yn erbyn cynnydd cyfartalog ar draws Cymru o 0.2%.

Nodais yn yr adroddiad blaenorol y rhesymau dros gael cynnydd grant llai na'r cyfartaledd.

2.12 **Cynnydd yn y Dreth Gyngor** - 'Rwyf wedi addasu'r ffigwr a ddefnyddir yn y gyllideb ar gyfer 2011/12 i lawr i 3.9% yn unol â'r terfyn uchaf a grybwyllwyd gan y Bwrdd ym mis Rhagfyr. Mae yna ryddid i'r Cyngor amrywio'r ffigwr yma wrth gwrs.

Nodir mwy am y dewisiadau o ran y Dreth Gyngor yn rhan 7 isod.

2.13 **Arbedion** - fel y nodwyd ym mis Rhagfyr, er y bu'n rhaid newid ychydig ar broffil y rhaglen arbedion, a gydag un neu ddau o eithriadau y byddai rhywun yn ei ddisgwyl ar raglen mor fawr, yn gyffredinol 'rydym wedi medru cyflawni'r rhaglen £16m a osodwyd yn wreiddiol ynghyd a'r cynlluniau eraill yr oedd eu hangen i sefydlu cyllideb gytbwys, a bydd hyn yn parhau ar gyfer 2012/13.

## 3 YSGOLION

3.1 Fel y nodais yn Rhagfyr, mae Llywodraeth Cymru yn nodi eu bod wedi gwarchod grant Llywodraeth Leol er mwyn sicrhau gostyngiad llai na gweddill y gwasanaethau yng nghyllidebau ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol.

3.2 Ein hymagwedd ni tuag at hyn yw parhau i gynllunio ar sail yr hyn y byddai'r Cyngor yn dymuno ei wneud ar gyfer ysgolion gan fesur hynny wedyn yn erbyn bwriad Llywodraeth Cymru ac ystyried a oes angen addasu unrhyw beth er mwyn cydymffurfio a'r addewid.

3.3 Eleni mae angen sicrhau fod ysgolion yn cael cynnydd arian o +1.58%. Dengys y ffigyrau diweddaraf y dylem fedru cwrdd â'r gofyn yma yn eithaf rhwydd oherwydd yr arian y bydd yn rhaid ei ddarparu ar gyfer chwyddiant.

3.4 Yn wahanol i wasanaethau eraill ni fydd ysgolion yn wynebu arbedion eleni heblaw i wynebu'r addasiadau arferol sy'n deillio o newidiadau yn niferoedd disgyblion, gyda rhai ysgolion yn elwa a rhai yn colli.

3.5 Ar y llaw arall bydd ysgolion Gwynedd yn elwa o'r addewid a wnaed gan Lywodraeth Cymru pan gymeradwywyd eu cyllideb am eleni i ddarparu adnoddau ychwanegol i ysgolion ar gyfer addysgu plant o gefndiroedd difreintiedig.

3.6 Effaith net y gostyngiad yn niferoedd disgyblion yw lleihau cyllidebau ysgolion £135,000 (gyda'r sector gynradd yn cynyddu £39,000 a'r Uwchradd yn gostwng £201,000). Wrth gwrs bydd yr effaith ar ysgolion penodol o fewn y sectorau hefyd yn amrywio gyda rhai yn cynyddu niferoedd a rhai yn lleihau. Amcangyfrifir ar y llaw arall y bydd gwerth y swm y bydd yr ysgolion yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru drwy'r grant ychwanegol oddeutu £500,000 ar gyfer y sector gynradd a £372,000 ar gyfer y sector uwchradd, ond eto bydd y swm fesul ysgol yn amrywio yn ôl niferoedd plant sy'n derbyn cinio am ddim.

3.7 Ar y cyfan felly cynyddu fydd cyllidebau ysgolion eleni mewn termau real hyd yn oed ar ol wynebu'r lleihad yn y niferoedd disgyblion. Fodd bynnag, bydd hyn yn amrywio o ysgol i ysgol a bydd rhai ysgolion uwchradd yn benodol yn wynebu sefyllfaoedd dyrus oherwydd gostyngiad yn y niferoedd plant

## 4 DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN PEDAIR BLYNEDD 2011/12 - 2014/15

4.1 Fel y nodwyd yn yr adroddiad yn Rhagfyr, nid yw'r wybodaeth sydd gennym bellach ar gyfer ail flwyddyn ein rhaglen 4 blynedd wedi newid y darlun yn sylweddol.

4.2 Nodir yn nhabl 2 isod y tafluniadau diweddaraf ar gyfer y pedair blynedd yn sgil sefydlu'n bendant sefyllfaoedd 2011/12 a 2012/13 a'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag argaeledd arbedion ynghyd â chymhariaeth gyda'r sefyllfa a welwyd yn wreiddiol.

**Tabl 2**
**Tafluniad cyllidebol at ddibenion cynllunio 2011/12 – 2014/15**

| | 11/12 | 12/13 | 13/14 | 14/15 | Cyfanswm | Gwreiddiol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Diffyg cyllidol a ragwelwyd | 8.6 | 8.4 | 9.6 | 10.6 | 37.2 | 37.5 |
| Treth Gyngor | (1.9) | (2.0) | (2.4) | (2.1) | (8.4) | (8.4) |
| Arbedion £16m | (4.9) | (3.8) | (1.3) | (0.9) | (10.9) | (11.7) |
| Newid polisi cyllidebu | (1.2) | (0.4) | - | - | (1.6) | (1.6) |
| 1% effeithlonrwydd gwasanaeth | - | (1.5) | (1.8) | (2.0) | (5.3) | (5.2) |
| Effeithlonrwydd corfforaethol | (0.5) | (0.7) | (1.4) | (2.0) | (4.6) | (4.2) |
| Codi incwm | - | (0.3) | (0.1) | - | (0.4) | (0.8) |
| Toriadau | (0.1) | 0.3 | (2.6) | (3.6) | (6.0) | (5.6) |

4.3 Mae'r tafluniad o'r diffyg cyllidebol yn parhau o gwmpas y £37m a'r unig newid o ran y proffil arbedion yw'r ffaith ein bod yn gwybod bellach y bydd y cynllun arbedion £16m yn cynhyrchu tua £650,000 yn llai oherwydd arbedion llai yn debygol o ddod o'r cynllun i ail fodelu yr hyn a gomisiynir ym maes oedolion; y ffaith nad oedd modd i ni wireddu'r cynllun lleihau'r nifer aelodau; a'r ffaith fod yr arbedion sy'n deillio o'r cynllun rheoli asedau yn debygol o fod ychydig yn llai na ragwelwyd. Daw gweddill y gwahaniaeth oherwydd y bydd yna £100,000 o'r arbedion bellach yn cael eu gwireddu yn 2015/16 sydd y tu allan i ffenestr y tabl uchod.

4.4 Er gwybodaeth yr aelodau fe roddir manylion o'r tybiaethau ynglŷn â'r anghenion sydd yn cynhyrchu'r ffigwr £37.2m yn atodiad 2.

4.5 Er bod yr uchod yn awgrymu y byddwn yn gorfod cynyddu swm y toriadau arfaethedig oherwydd y lleihad yn yr hyn y bydd y cynllun £16m yn ei gynhyrchu, fe gytunwyd eisoes y bydd angen cynyddu'r targed ar gyfer arbedion effeithlonrwydd corfforaethol ac mae yna drafodaethau yn mynd ymlaen ar hyn o bryd ynglŷn â hynny, gyda golwg ar ddod a chynigion ger bron y Cyngor newydd pan etholir ef ym mis Mai.

4.6 Ar y cyfan felly mae'r sefyllfa yn parhau i fod yn foddhaol ac er gwaethaf y ffaith y byddwn wedi gorfod darganfod arbedion o dros £13m yn y ddwy flynedd diwethaf, calonogol yw nodi fod canran helaeth o'r swm yma wedi dod o arbedion effeithlonrwydd heb orfod torri gwasanaethau i'r dinesydd.

4.7 Tra bod angen canmol yr ymdrech hyd yma a'r gwaith a wnaed i gyrraedd y sefyllfa yr ydym ynddi, mae yna berygl i ni ymfalchïo gormod yn ein hymdrechion hyd yma ac i feddwl fod y dyfodol am fod mor rhwydd. Fel y nodais yn yr adroddiad yn Rhagfyr, mae'r ffigwr grant arfaethedig gyfer 2014/15 eisoes wedi gostwng o'r hyn a ragdybiwyd y flwyddyn ddiwethaf, ac yn ei ddatganiad hydrefol

mae'r Canghellor wedi nodi y bydd angen ymestyn y cyfnod o doriadau y tu hwnt i 2014/15 am o leiaf dwy flynedd arall.

4.8 'Rydym eisoes yn taflunio y byddwn yn wynebu toriadau gwasanaeth yn 2013/14 ac yn 2014/15. Gan gymryd y bydd yna ostyngiadau pellach yng ngrant y cyngor yn ymestyn i 2015/16 a 2016/17, ac wrth i gyfleoedd arbedion effeithlonrwydd leihau a dod yn anoddach i'w cyflawni, y perygl yw y bydd canran uwch o'r arbedion o 2014/15 yn gorfod bod yn doriadau gwasanaeth.

4.9 Dyma fydd un o'r bygythiadau mwyaf y bydd y cyngor newydd yn ei wynebu ar ol mis Mai a bydd angen iddo ddechrau rhoi sylw i'r dyfodol ariannol yn fuan iawn yn oes y cyngor newydd o gofio'r hinsawdd ariannol sy'n debygol o'i wynebu.

## 5 CYFALAF

5.1 'Roedd y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2010/11 a 2011/12 yn deillio o'r strategaeth asedau a bellach mae angen llunio'r rhaglen gyfalaf ar gyfer y tair blynedd nesaf.

5.2 Yn naturiol, sylfaen y rhaglen ddiweddaraf fydd y strategaeth fel y'i diwygiwyd gan y Bwrdd ym mis Rhagfyr (yn dilyn adolygiad gan y Prif Bwyllgor Craffu). Y Cyngor sydd a'r hawl i gymeradwyo'r strategaeth wrth gwrs ac fe fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor ym mis Mawrth.

5.3 Gan gymryd y bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r addasiadau i'r strategaeth, argymhellir y rhaglen gyfalaf ar gyfer y tair blynedd nesaf yn Atodiad 3.

5.4 Tynnir sylw yn benodol at wariant o £3.465m y flwyddyn ar gynnal ffyrdd. Mae hwn yn deillio o gynllun a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol i ddefnyddio pwerau benthyca darbodus llywodraeth leol i gynnal gwaith ar yr asedau ffyrdd.

5.5 Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu arian refeniw i ni fedru benthyca i gyflawni'r gwaith yma ac yn talu'r swm hwnnw i awdurdodau lleol dros 20 mlynedd er mwyn ad-dalu'r benthyciadau y byddwn yn eu cymryd.

5.6 Yn naturiol, bydd yna effaith bositif ar ein hasedau ffyrdd a hefyd chwistrelliad positif i'r economi leol yng Nghymru drwy wneud hyn.

5.7 Fodd bynnag, amcangyfrif yw'r symiau yma o'r hyn y bydd yr adnodd refeniw a dderbynnir yn ei "brynu" o ran y swm y gellir ei fenthyca ac efallai y bydd angen addasu'r swm yma. Byddwn yn addasu'r ffigwr yma yn ol y swm a geir (a'r swm y bydd hynny wedyn yn caniatáu i ni

ei fenthyg ar y pryd) gan adrodd wedyn i'r Bwrdd drwy'r adolygiad ariannol chwarterol.

5.8 Mae'r gwariant a welir o dan Drefniadaeth Ysgolion yn cynrychioli'r gwariant yn ardal Tywyn. Nid yw'r cynlluniau y byddwn yn eu gwireddu yn yr ardaloedd eraill eto yn y rhaglen gan ein bod yn trafod y proffil grant ar gyfer yr holl raglen gyda Llywodraeth Cymru. Bydd angen ychwanegu'r cynlluniau yma unwaith y byddwn yn gwybod pa bryd y byddwn yn dechrau ar y cynlluniau unigol.

5.9 Mae'r rhaglen a nodir yn Atodiad 3 yn cynnwys swm yn 2012/13 ar gyfer y bidiau a argymhellir yn adroddiad bidiau'r Pennaeth Strategol a Gwella.

5.10 Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn -

**Tabl 3**
**Ariannu rhaglen gyfalaf 2012/13 – 2014/15**

| **£'000** | **2012/13** | **2013/14** | **2014/15** |
|---|---|---|---|
| **Gofynion cyfalaf** | **16,133** | **16,195** | **12,600** |
| **I'w ariannu drwy** | | | |
| Darpariaeth cyfalaf yn y setliad | 7,349 | 6,527 | 6,527 |
| Grant tuag at ysgolion | 3,351 | 2,173 | |
| Derbyniadau cyfalaf | 1,592 | 2,090 | 2,096 |
| Cyfraniad o refeniw | 376 | 1,940 | 512 |
| Benthyca darbodus (*) | 3,465 | 3,465 | 3,465 |
| **Cyfanswm ariannu** | **16,133** | **16,195** | **12,600** |

(*) I'w newid yn ddibynnol ar y swm y mae'r adnodd refeniw yn ei ariannu

5.11 Un agwedd o'r cynigion cyllido yw lefel y gwariant a ariennir gan dderbyniadau cyfalaf. Mae modd gwneud hyn wrth gwrs oherwydd y safiad rhagweithiol a gymerodd y Cyngor wrth greu ei strategaeth asedau oedd yn cynnwys gwaredu nifer o asedau nad oedd eu hangen sy'n caniatau i ni wedyn fuddsoddi yn ein hasedau allweddol.

## 6 BALANSAU

6.1 Fel y nodwyd yn adroddiad Rhagfyr, rhagwelir y bydd gennym falansau o tua £8m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 2.3% o wariant refeniw gros y Cyngor .

6.2 Nodais bryd hynny oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, mae'n briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin gydag unrhyw broblemau allasai godi.

6.3 Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma.

## 7 Y DRETH GYNGOR

7.1 Bydd angen i'r Pwyllgor ystyried a yw'n fodlon gyda chyfansoddiad y gyllideb a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol a chan gymryd ei fod yn fodlon gyda thrywydd cyffredinol y strategaeth, byddai hyn yn arwain at gyllideb fesul gwasanaeth yn 2012/13 fel yr hyn a nodir yn atodiad 1.

7.2 Mae'r gyllideb a nodir yn arwain at gynnydd yng nghyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol o 2.3%; cynnydd yng nghyllidebau ysgolion (heb gynnwys y grant y chwanegol y byddant yn ei dderbyn) o 1.2% (gyda'r gyllideb ddatganoledig yn cynyddu 1.6%) a gweddill y gwasanaethau yn wynebu **gostyngiad** cyfartalog o 0.6%. Ar y wyneb efallai nad yw hyn yn edrych rhy ddrwg ond os ydym yn cymryd chwyddiant i ystyriaetht, mae'r gwir sefyllfa ar gyfer gweddill y gwasanaethau er enghraifft yn gyfystyr i ostyngiad o dros 5%.

7.3 Y penderfyniad sydd angen ei wneud wedyn yw sefydlu union lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2012/13.

7.4 Yn y tybiaethau a wnaed uchod, fe gymerwyd ffigwr o 3.9% yn unol â'r ffin uchaf a roddwyd gan y Pwyllgor Craffu a'r Bwrdd ym mis Rhagfyr.

7.5 Byddai 3.9% yn gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Gyngor o £38.93 i eiddo mewn Band D neu 75c yr wythnos. [Byddai'r dreth a godir gan y cynghorau cymuned a'r Awdurdod Heddlu yn ychwanegol i hyn wrth gwrs]. Mae ychydig dros 19% o dai yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o gymorth tuag at eu Treth Gyngor, ac mae 60% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D.

7.6 Er gwybodaeth i'r Pwyllgor, nodir yn y tabl isod faint o dai sy'n talu'r Dreth Gyngor ym mhob band a faint sydd yn derbyn cymorth budd-dal i dalu'r biliau hynny –

**Tabl 4**
**Nifer eiddo lle telir Treth Gyngor ac sy'n derbyn budd-dal**

| | **Nifer yn cael bil** | **Nifer yn derbyn elfen o fudd-dal** | **Nifer yn derbyn budd-dal llawn** |
|---|---|---|---|
| Band A | 8,328 | 735 | 2,019 |
| Band B | 14,727 | 1,504 | 2,821 |
| Band C | 11,567 | 846 | 1,341 |
| Band D | 9,926 | 337 | 601 |
| Band E | 7,807 | 232 | 341 |
| Band F | 3,793 | 67 | 85 |
| Band G | 1,214 | 7 | 12 |
| Band H | 173 | 1 | 2 |
| Band I | 72 | - | 1 |
| **Cyfanswm** | 57,607 | 3,729 | 7,223 |

7.7 Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru ond y wybodaeth ddiweddaraf sydd gennyf yw y bydd y nifer helaethaf yn cynyddu o dan 3% gyda'r cyfartaledd yn debygol o fod o gwmpas 2.5% .

7.8 Mae cynnydd o 3.9% yn cynhyrchu tua £1.93m i ni (gyda phob 0.1% yn cynhyrchu £49,560).

7.9 Mae'r hafaliad yn un syml wrth gwrs – am bob 0.1% yn **is** na 3.9% y byddwn yn gosod y Dreth Gyngor yna, os bydd yr holl dybiaethau a wnaed ar gyfer y blynyddoedd canlynol yn gywir, yna byddwn yn ychwanegu £49,560 at yr arbedion.

7.10 Byddai dod i lawr i Dreth Gyngor o 3.5% felly yn golygu ychwanegu £198,240 at y cyfanswm arbedion y byddwn eu hangen.

7.11 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau neu leihau trethi yn un anodd wrth gwrs a mater i'r Pwyllgor yw pwyso a mesur a dod at y balans y maent yn ystyried sy'n briodol.

## 8 ASESIAD EFFAITH O SAFBWYNT CYDRADDOLDEB

8.1 Mae'r gyllideb a amlinellir uchod yn ceisio parhau i ddarparu'r deilliannau priodol i holl drigolion y sir, ond gan nad yw'r cynnydd yn ein hincwm yn ddigonol i gwrdd â chostau chwyddiant hyd yn oed, mae'n rhaid edrych am arbedion.

8.2 Yn y maes arbedion felly mae'r risg uchaf o ran y posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchodedig. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol eisoes wedi adnabod y risg yma ac ers 2010 wedi atgoffa Awdurdodau Lleol o'u dyletswydd i asesu effaith eu penderfyniadau ariannol.

8.3 Cyhoeddodd Cyngor Gwynedd adroddiad ar hyn yn 2011, sydd i'w chael ar safle we'r Cyngor yn y cyfeiriad a nodir isod a byddwn yn adrodd drachefn eleni.

http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1092/Asesu_effaith_ein_penderfyniadau_ariannol_ar_gydraddoldeb.pdf

8.4 Byddwn yn parhau i ddatblygu ein trefniadau ar gyfer asesu effaith cydraddoldeb ar benderfyniadau ariannol mewn cydweithrediad a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac Awdurdodau Lleol eraill, a hynny drwy rannu ymarfer da ac adnabod camau effeithiol i'r dyfodol.

8.5 Mae gennym gyfundrefnau clir ar gyfer darganfod unrhyw arbedion sydd eu hangen sydd yn cynnwys asesiad llawn o effaith unrhyw arbedion o safbwynt cydraddoldeb. Adroddir ar rhain ar wahan.

8.6 Nid ceisio cwrdd â chostau chwyddiant yn unig y mae'r gyllideb uchod wrth gwrs, mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod pwysau cyllidebol anorfod sy'n disgyn ar wasanaethau oherwydd galwadau uwch a roddir arnynt yn sgil nifer uwch o gleientau a.y.b. hefyd n cael eu cyfarch.

8.7 Mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau ac mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod angen sicrhau cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaeth a ddarperir.

8.8 Fe geir manylion llawn yr arian ychwanegol a ddarperir yn adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella ac o'r £1.7m a ddarperir yma, fe welir fod dros £1m o'r swm yma yn mynd i faes goal cymdeithasol, a hynny ar ben yr £180,000 arian demograffi a ddarperir er mwyn cydnabod yr angen i ddarparu ar gyfer niferoedd uwch ym maes anabledd dysgu.

## 9. PENDERFYNIADAU I'W HYSTYRIED GAN Y BWRDD

9.1 Mae angen i'r Bwrdd benderfynu ar y materion canlynol -

a. O ystyried y gyllideb a nodir yn rhan 2 yr adroddiad a'r sylwadau ychwanegol a wnaed o ran risgiau ariannol sydd wedi eu cyfarch , a yw'r Bwrdd yn fodlon gyda'r hyn y bwriedir ei wneud o ran gwariant a sut y bwriedir sicrhau fod gennym gyllideb gytbwys yn 2012/13 ac a yw am argymell y gyllideb i'r Cyngor ?

b A yw'r Bwrdd yn cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a nodir yn rhan 5 o'r adroddiad ac yn cytuno i amrywio'r ffigwr Priffyrdd yn unol â'r hyn y bydd y swm refeniw yn caniatáu i ni ei fenthyca ac am argymell hynny i'r Cyngor ?

c. Beth yw barn y Bwrdd ynglŷn â'r lefel Dreth Gyngor y dylid ei godi yn 2012/13?

ch. A yw'r Bwrdd yn dymuno gwneud unrhyw sylw ar y sefyllfa ddyrys sy'n debygol o fod yn ein hwynebu o gofio'r darlun tywyll arfaethedig am o leiaf dwy flynedd bellach.

## Newidiadau cyllidebol 2012/13 fesul gwasanaeth

| ADRANNAU | Cyllideb Sylfaenol 2011/12 £'000 | Trosglwyddiadau i'r Setliad £'000 | Chwyddiant £'000 | Increments, Cyflogau a Pensiynau £'000 | Praeseptau Llog ar Falansau a Costau Benthyca £'000 | Addasiadau Cyllidebau Incwm £'000 | Amrywiol £'000 | Addasiadau Eraill £'000 | Bidiau a demograffi £'000 | Arbedion £'000 | Cyllideb Sylfaenol 2012/13 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tim Arweinyddiaeth | 738 | 0 | 19 | 2 | 0 | 0 | (1) | 29 | 0 | (13) | 774 |
| Strategol a Gwella | 2,974 | 0 | 73 | 5 | 0 | 0 | 0 | (96) | 0 | (110) | 2,846 |
| Cyllid | 3,696 | 0 | 141 | 36 | 0 | 0 | 86 | 0 | 44 | (58) | 3,945 |
| Democratiaeth a Chyfriethiol | 3,266 | 0 | 65 | 1 | 0 | 0 | (16) | 0 | 157 | (133) | 3,340 |
| Gofal Cwsmer | 6,597 | (31) | 266 | 5 | 0 | 0 | (18) | (73) | 0 | (243) | 6,503 |
| Adnoddau Dynol | 3,029 | 0 | 71 | (9) | 0 | 0 | 5 | 50 | 13 | (103) | 3,056 |
| Cefnffyrdd | (91) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (91) |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 22,625 | 0 | 1,265 | 144 | 0 | 0 | (163) | (350) | 144 | (1,329) | 22,336 |
| Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a GyC) | 6,796 | 0 | 483 | 18 | 0 | 115 | 14 | (39) | 83 | (512) | 6,958 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 277 | 0 | 95 | 19 | 0 | 130 | 5 | 27 | 0 | (123) | 430 |
| Addysg Canolog | 16,532 | 0 | 435 | 7 | 0 | 0 | (114) | 48 | 250 | (730) | 16,428 |
| Cyllideb Ygolion | 64,196 | 0 | 1,043 | 136 | 0 | 0 | (151) | (142) | 25 | (135) | 64,972 |
| Economi a Chymuned | 3,814 | 0 | 69 | 19 | 0 | 155 | 60 | (501) | 100 | (149) | 3,567 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 52,942 | 27 | 1,608 | 33 | 0 | 0 | (124) | 24 | 1,263 | (1,597) | 54,176 |
| Tai | 1,649 | 0 | 44 | 15 | 0 | 0 | (12) | (75) | 0 | (26) | 1,595 |
| Darparu a Hamdden | 1,747 | 0 | 178 | 71 | 0 | 0 | (143) | (154) | 0 | (182) | 1,517 |
| **Cyfanswm Adrannau** | 190,787 | (4) | 5,855 | 502 | 0 | 400 | (572) | (1,252) | 2,079 | (5,443) | 192,352 |
| Materion corfforaethol a chyfalaf | 27,141 | 0 | (641) | 0 | (51) | (66) | 244 | 1,152 | 515 | (1,124) | 27,170 |
| **CYFANSWM GROS =** | **217,928** | **(4)** | **5,214** | **502** | **(51)** | **334** | **(328)** | **(100)** | **2,594** | **(6,567)** | **219,522** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Balansau a Reserfau Penodol** | (402) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 138 | 100 | 0 | 0 | (164) |
| **CYFANSWM NET =** | **217,526** | **(4)** | **5,214** | **502** | **(51)** | **334** | **(190)** | **0** | **2,594** | **(6,567)** | **219,358** |

## Ffigyrau y tu ôl i'r tafluniad diffyg o 2013/14 ymlaen

| | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|
| Tal gweithlu heblaw athrawon | 3.5 | 3.6 |
| Tal athrawon | 1.0 | 1.7 |
| Prisiau | 1.9 | 1.6 |
| Treth Tirlenwi | 0.3 | - |
| Pensiynau | 0.4 | - |
| Incrementau cyflog | 0.4 | 0.4 |
| Praeseptau | 0.1 | 0.3 |
| Costau benthyciadau cyfalaf | (0.2) | (0.2) |
| Llog ar falansau | - | - |
| Demograffi | 0.9 | 0.5 |
| Amrywiol eraill | - | - |
| Pwysau ar wasanaethau | 2.8 | 3.0 |
| Cyfalaf ychwanegol (ysgolion a.y.b.) | 0.2 | 0.2 |
| Trosglwyddiadau | - | - |
| Colli (cynnydd) yng Ngrant y Llywodraeth | (1.7) | (0.5) |
| Cyfanswm diffyg | 9.6 | 10.6 |

## Tybiaethau allweddol

| | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|
| Tal gweithlu heblaw athrawon | 3% | 3% |
| Tal athrawon | 3% o Medi 2013 | 3% |
| Prisiau | 3% | 2.5% |
| Treth Tirlenwi | £8 y dunnell | 2.5% |
| Pensiynau | 0.5% ar gyfraniad y cyflogwr | - |
| Incrementau cyflog | Tueddiad hanesyddol | Tueddiad hanesyddol |
| Praeseptau | Yn unol â'r tafluniad grant | Yn unol â'r tafluniad grant |
| Costau benthyciadau cyfalaf | Gwir dafluniad | Gwir dafluniad |
| Llog ar falansau | Gwir dafluniad | Gwir dafluniad |
| Demograffi | Gwir dafluniad | Gwir dafluniad |
| Amrywiol eraill | - | - |
| Pwysau ar wasanaethau | Tueddiad hanesyddol | Tueddiad hanesyddol |
| Cyfalaf ychwanegol (ysgolion a.y.b.) | Strategaeth asedau | Strategaeth asedau |
| Trosglwyddiadau | - | - |
| Colli (cynnydd) yng Ngrant Llywodraeth Cymru | Tafluniad y Llywodraeth | Tafluniad y Llywodraeth |

**ATODIAD 3**

## RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2012/13 – 2014/15

| £'000 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Cynnal a Chadw adeiladau (ymdrin ag ol groniad ac osgoi ol groniad pellach) | 4,353 | 4,779 | 4,319 |
| Gwaith Tan ac Asbestos | 496 | 593 | 476 |
| Trefniadaeth Ysgolion | 3,657 | 2,173 | |
| Labordai Gwyddoniaeth Botwnnog | 300 | | |
| Dileu 6 dosbarth symudol Brynrefail | | 550 | |
| Cynnal Ffyrdd (Cynllun Benthyca) | 3,465 | 3,465 | 3,465 |
| Goleuadau stryd | 50 | 50 | 50 |
| Ffensys diogelwch ar y ffyrdd | | | 110 |
| Ymdrin â thwr ar y ffyrdd | 100 | 100 | 100 |
| Meysydd Chwarae | 35 | 35 | 35 |
| Strategaeth Wastraff y Cyngor | 540 | 500 | 250 |
| Adnewyddu Cerbydau | 343 | 482 | 383 |
| Rhagbaratoi Cynlluniau Trafnidiaeth | 100 | 100 | 100 |
| Lonydd Glas | 20 | 20 | 20 |
| Mewnosod medic baths a sluices | 100 | 100 | |
| Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth | 153 | 348 | 592 |
| Siop un Stop ac ystafelloedd cyfarfod | 151 | | |
| Gwella rheolaeth traffig – Frondeg | 30 | | |
| Sustem electroneg cadw cofnodion a dogfennau | | 422 | 224 |
| Grantiau Tai | 2,000 | 2,000 | 2,000 |
| Rheoli Carbon | | 400 | 200 |
| I'w ddyrannu | 240 | 78 | 276 |
| **Cyfanswm** | **16,133** | **16,195** | **12,600** |

---

**A. Barn yr Aelodau Lleol**

Dim yn fater lleol.

---

**B. Barn y Swyddogion Statudol**

**1. Prif Weithredwr:**

Mae'r adroddiad sydd gerbron yn dangos bod ein gwaith cynllunio ariannol hyd yma wedi bod ar sail reit gadarn ac yn ddoeth. Fodd bynnag, fel y mae paragraffau 4.7 a 4.8 yn nodi, mae datganiad diweddar y Canghellor wedi amlygu'r ffaith y bydd y cyfyngu ar wariant cyhoeddus yn parhau am o leiaf dwy flynedd arall. Canlyniad hyn yw bod y rhagolygon am yr angen i dorri yn gwaethygu'n sylweddol. Mae hynny, yn ei dro, yn golygu bod y penderfyniadau a wnawn heddiw yn fwy pwysig gan bod yn rhaid i ni eu hystyried, nid yng nghyd-destun y Strategaeth hyd at 2014/15, ond am o leiaf dwy flynedd ar ôl hynny. Rhaid felly I ni gryfhau ein hymagwedd busnes gan ofyn cwestiynau caled iawn am ein buddsoddiad o arian cyhoeddus yn ein holl weithgareddau

**2. Swyddog Monitro**

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**3. Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r sylwadau hyn yn ffurfio adroddiad y Prif Swyddog Cyllid ar "gadernid yr amcangyfrifon" a "digonolrwydd y reserfau ariannol" yn unol â rhan 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae angen i'r Cyngor ystyried hyn, a'r risgiau cysylltiedig wedi'u hadnabod gan y Prif Swyddog Cyllid, wrth bennu'r gyllideb flynyddol a lefel y Dreth Cyngor.

Rwyf wedi bod yn rhan o drafodaethau perthnasol wrth i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol lunio'r strategaeth ariannol, a gallaf gadarnhau rhesymoldeb y rhagolygon gerbron parthed anghenion gwariant y Cyngor erbyn 2012/13 a thu hwnt. Mae'n anochel fod peth ansicrwydd ynglŷn â ffactorau fel chwyddiant tebygol a gwireddu arbedion sydd wedi'u cynllunio, ond credaf fod tybiaethau teg yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol a bod y tybiaethau rheiny yn cynhyrchu ffigyrau ariannol gyda lefel risg cymedrol a derbyniol.

Er mwyn lleddfu'r risg cysylltiedig â'r strategaeth ariannol yn 2011/12, mae'r Arweinyddion Portffolio, Penaethiaid Adran, rheolwyr gwasanaeth a chyfrifwyr sy'n gyfrifol am gyllidebau'r Cyngor yn gyffredinol wedi gweithredu mewn modd disgybledig a gweithgar i reoli gwariant a sicrhau incwm. Bydd angen yr un fath o reolaeth ariannol cydwybodol eto yn 2012/13.

Bydd ymlyniad at y cynllun ariannol tymor canol i gyrraedd targed arbedion £37m dros y pedair blynedd o 2011/12 hyd at 2014/15 yn rhoi Gwynedd mewn sefyllfa gadarn i gynllunio ymlaen, ond mae perygl y bydd raid delio gyda thoriadau pellach mewn grant, yn nhermau real, yn 2015/16 a 2016/17. Felly, rhaid gofalu ein bod yn gwarchod balansau cyffredinol y Cyngor yn 2012/13. Rwy'n argyhoeddedig fod yr hyn argymhellir yma, sef cynnal y lefel £8m cyfredol o falansau (gyda chronfeydd penodol digonol), yn ddarbodus os yw'r Cyngor yn cynllunio ymlaen yn briodol ar gyfer parhad y cyfnod o galedi cenedlaethol / byd-eang.